




Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Digital Health and Care Wales

# Iechyd a Gofal Digidol Cymru
# **Strategaeth Ymgysylltu 2023-2026**

# CEFNDIR A PHWRPAS

**Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) yn gorff cenedlaethol ac yn rhan o GIG Cymru, ac mae'n darparu gwasanaethau digidol a data i drawsnewid iechyd a gofal i bawb yng Nghymru.**

Mae'r sefydliad yn rhedeg neu'n cyfuno â mwy na 100 o wasanaethau ac yn darparu rhaglenni trawsnewid digidol cenedlaethol mawr.

Mae'n sefydliad ifanc ac uchelgeisiol a'i weledigaeth i ddarparu gwasanaethau digidol ymysg y goreuon yn y byd, fydd yn grymuso pobl i fyw bywydau iachach.

Mae gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru lawer o randdeiliaid – gan ddechrau gyda buddiolwyr eithaf ein gwaith – y claf a'r cyhoedd.

Rydym yn cydweithio â'n defnyddwyr – clinigwyr, staff gweinyddol a staff rheoli, a chyrff cyhoeddus eraill i sicrhau ein bod yn darparu'r datrysiadau digidol sydd eu hangen arnynt.

Rydym yn gwirio ein blaenoriaethau yn erbyn polisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac yn gweithio â'n cydweithwyr digidol mewn byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd, Awdurdodau Iechyd Arbennig, Awdurdodau Lleol, partneriaid a chyflenwyr eraill i foderneiddio ein seilwaith a'n cynigion digidol, cynllunio ar y cyd a chynyddu lefel ein haeddfedrwydd digidol.

Rydym yn gweithio â'r byd academaidd i lunio partneriaethau arloesol o ran technoleg ac adeiladu gweithlu digidol y dyfodol.

Mae pobl wrth wraidd trawsnewid. Trwy weithio â'n partneriaid cenedlaethol a lleol o'r cychwyn cyntaf, gallwn ddeall i ba gyfeiriad y mae gofal iechyd yn mynd yn y dyfodol a helpu i alluogi trawsnewid trwy ddatrysiadau data a thechnoleg.

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd a Gofal Digidol Cymru Digital Health and Care Wales

# BLE YDYN NI NAWR?

Er mwyn bod yn bartner strategol yr ymddiriedir ynddo a chyflawni ein huchelgeisiau i arwain y gwaith o ddarparu systemau digidol cenedlaethol ar gyfer gwell iechyd a gofal cymdeithasol i bobl Cymru, mae angen inni gydweithio ac ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid.

Mae Ymgysylltu Effeithiol yn hanfodol i greu deialog barhaus a meithrin perthnasoedd sy'n cefnogi gweithredu gwelliannau digidol a data ym maes iechyd a gofal.

Fel sefydliad newydd mae gan IGDC gyfle i alinio â chynlluniau strategol sefydliadau eraill fel partner y gellir ymddiried ynddo i fwrw ymlaen â'r genhedlaeth nesaf o wasanaethau sydd eu hangen i drawsnewid y ffordd y darperir iechyd a gofal.

Bydd mabwysiadu egwyddorion Cynhwysiant Digidol a chyd-ddylunio gyda dinasyddion yn helpu i rymuso cleifion a'r cyhoedd i reoli eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

Wrth i ni dyfu a datblygu mwy o raglenni a mentrau cenedlaethol, mae cael strwythur cadarn yn sail i'n gweithgareddau ymgysylltu yn dod yn bwysicach fyth. Trwy greu partneriaethau effeithiol yng ngwaith IGDC gallwn alluogi cyd-gynhyrchu datrysiadau a fydd yn rhoi pobl wrth galon y genhedlaeth nesaf o wasanaethau sydd eu hangen i drawsnewid gofal a darpariaeth iechyd. Mae meithrin perthnasoedd o ymddiriedaeth a dysg yn hanfodol.

GIG CYMRU NHS WALES Iechyd a Gofal Digidol Cymru Digital Health and Care Wales

**darparu gofal iechyd digidol i bobl Cymru**
**delivering digital healthcare to the people of Wales**

IGDC • DHCW

# GWELEDIGAETH/ DIBEN

Mae gweledigaeth yn allweddol i ddeall y cyfeiriad i'r dyfodol a'r hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni.

Ein gweledigaeth ar gyfer IGDC yw darparu gwasanaethau digidol o'r radd flaenaf, gan rymuso pobl i fyw bywydau iachach.









# EIN RHANDDEILIAID

Mae IGDC yn gweithredu ar draws ecosystem gymhleth gydag ystod eang o randdeiliaid ac mae ganddo'r potensial i effeithio ar bawb yng Nghymru.

Drwy ein gwaith mapio rhanddeiliaid rydym wedi diffinio pymtheg categori o randdeiliaid y byddwn yn ymgysylltu ac yn gweithio â nhw:

| Categori | Disgrifydd cryno |
|---|---|
| **Gwasanaethau cymunedol a gofal cymdeithasol** | Sector gofal cymdeithasol, gwasanaeth iechyd meddwl, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, nyrsys cymunedol |
| **Gwasanaethau digidol a data** | Arweinwyr digidol a data yn GIG Cymru (Cyfarwyddwyr Gweithredol sy'n gyfrifol am ddigidol, Prif Swyddogion Digidol, Prif Swyddogion Gwybodeg Glinigol, perfformiad a gwybodaeth), uwch staff, staff digidol a data |
| **Y Cyfryngau** | Darlledu, print, ar-lein, cyfryngau cymdeithasol (lleol a chenedlaethol), cysylltiadau cyhoeddus a marchnata. |
| **GIG – Byrddau Iechyd** | Bwrdd (Cadeiryddion, Aelodau Annibynnol, Cyfarwyddwyr Gweithredol), uwch staff, gweithwyr proffesiynol, defnyddwyr rheng flaen systemau (anghlinigol) |
| **Ymddiriedolaethau'r GIG** | Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Felindre, Iechyd Cyhoeddus Cymru (Cadeiryddion Byrddau, Aelodau Annibynnol, Cyfarwyddwyr Gweithredol), uwch staff, gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol, defnyddwyr rheng flaen systemau (anghlinigol) |
| **GIG – Sefydliadau cenedlaethol eraill** | Addysg a Gwella Iechyd Cymru (Cadeiryddion Byrddau, Aelodau Annibynnol, Cyfarwyddwyr Gweithredol), uwch staff, gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol, defnyddwyr rheng flaen systemau (anghlinigol), Sefydliadau cenedlaethol a letyir. Tu allan i Gymru: NHS Digital, GIG Lloegr, GIG Gogledd Iwerddon, GIG yr Alban, NHSx, ac eraill |
| **Cleifion a'r cyhoedd** | Cleifion a'r cyhoedd (gan gynnwys gofalwyr, eraill sy'n rhoi cefnogaeth, Nodweddion Gwarchodedig ac ati) |
| **Llywodraeth wleidyddol/ llywodraeth leol** | Llywodraeth wleidyddol (cynrychiolwyr etholedig) a llywodraeth leol (aelodau a swyddogion) |

# EIN RHANDDEILIAID


| Categori | Disgrifydd cryno |
|---|---|
| **Gofal Sylfaenol** | Meddyg Teulu, deintydd, fferyllydd, optometrydd, staff gofal iechyd carchardai |
| **Gofal iechyd preifat** | Darparwyr preifat (ysbytai, hosbisau, cartrefi gofal, gofal yn y cartref) |
| **Cyrff cynrychioliadol** | Sefydliadau proffesiynol, statudol a rheoleiddiol gan gynnwys undebau llafur (Cymru a'r DU) gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg a chyrff cynghori priodol eraill ar y Gymraeg a Chanolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol Cymru |
| **Ymchwil, Addysg ac Arloesedd** | Ymchwil, arloesedd ac addysg (gan gynnwys diwydiant, technolegau digidol a gwybodaeth) |
| **Cyflenwyr a chontractwyr** | Caffael gwasanaethau masnachol a chontractau i gefnogi'r sefydliad – systemau, meddalwedd gwasanaethau, ymgynghoriaeth, asiantaethau, contractwyr |
| **Y trydydd sector** | Trydydd sector/gwirfoddol, sefydliadau sy'n cynrychioli Cleifion/y Cyhoedd/cyflwr penodol a Chomisiynwyr Cenedlaethol |
| **Llywodraeth Cymru** | Prif Weithredwr GIG Cymru, Prif Swyddogion, Cyfarwyddwyr Digidol a Data, arweinwyr clinigol a pholisi cenedlaethol |

# EIN HYMRWYMIAD A'N HYMAGWEDD AT YMGYSYLLTU

Trwy drafodaethau cychwynnol gyda'n rhanddeiliaid, a mapio gweithgareddau ar draws IGDC rydym wedi datblygu set o Golofnau Ymgysylltu sy'n sail i'n Cynllun Ymgysylltu ac a fydd yn ein galluogi i gyflawni ein Gweledigaeth.

Rydym wedi nodi ein dull o ymgysylltu â chyfres o ymrwymiadau drwy ein hegwyddorion ymgysylltu.

Yr Egwyddorion hyn yw'r fframwaith sy'n sail i'n hymgysylltiad â rhanddeiliaid, yn ei lywio a'i arwain, ac maent yn cofleidio'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu, Cynhwysiant Digidol ar gyfer Iechyd a Gofal yng Nghymrui a Chynllun Iaith Gymraeg.




Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu




Cynhwysiant Digidol




Chynllun Iaith Gymraeg

## Ein hegwyddorion ymgysylltu



**Gwrando:** byddwn yn ymdrechu i fod yn rhaglen sy'n gwrando

**Tryloywder:** byddwn yn croesawu mewnbwn rhanddeiliaid, yn ei gwneud yn glir ac yn hawdd iddynt gysylltu â ni a byddwn yn ymrwymo i ymateb mewn modd amserol.

**Yn agored i ddylanwad ac adeiladu consensws:** byddwn yn mynd ati i geisio barn a bydd cyfleoedd i randdeiliaid ddylanwadu ar elfennau o Strategaeth yr Adnodd Data Cenedlaethol (NDR), blaenoriaethau, a'r ffordd yr ydym yn darparu'r NDR. Byddwn yn ymdrechu i adeiladu consensws lle bynnag y bo modd.

**Dylanwadwr:** byddwn yn ceisio arwain a dylanwadu ar eraill ynghylch ein gwaith.

**Ymgysylltu â'r bobl gywir:** byddwn yn gweithio gyda'r rhai y gall yr hyn yr ydym yn ei wneud effeithio arnynt gan gynnwys defnyddio mapio rhanddeiliaid i bennu mewnbwn gan bwy y dylid ei flaenoriaethu.

**Wedi'i gynllunio ac yn amserol:** bydd ein hymgysylltiad yn cael ei gynllunio a'i ddarparu mewn ffordd amserol a phriodol.

**Hygyrchedd a bod yn gynhwysol:** byddwn yn darparu unrhyw wybodaeth sydd ei hangen i gymryd rhan mewn ymgysylltu, mewn [Cymraeg Clir a] Plain English ac mewn amrywiaeth o fformatau ac ieithoedd.

**Cydymffurfiaeth:** byddwn yn dilyn gofynion y llywodraeth gan gynnwys cyfreithiol, canllawiau a dyletswyddau eraill gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid yn unol â'n Cynllun Iaith Gymraeg a gofynion y GIG.

**Darparu adborth:** byddwn yn dangos sut mae mewnbwn rhanddeiliaid wedi llywio a dylanwadu ar benderfyniadau a chamau gweithredu.

**Mathau o ymgysylltu:** byddwn yn ymrwymo i ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau digidol a dulliau nad ydynt yn ddigidol i wneud sylwadau mor hawdd a chyfleus â phosibl i adlewyrchu anghenion a dewisiadau gwahanol fathau o randdeiliaid.

# NODAU STRATEGOL

## COLOFNAU YMGYSYLLTU

Meithrin diwylliant o ymgysylltu effeithiol, gan wella gallu a chapasiti IGDC

Datblygu partneriaethau a rhwydweithiau strategol effeithiol, a fforymau i alluogi cydweithio llwyddiannus

Cael ein cydnabod fel arweinydd system yn natblygiad technoleg, cynhyrchion data a gwasanaethau o ansawdd uchel ar gyfer y GIG

Gweithredu fel sefydliad ystwyth ac ymatebol, gan wrando ar randdeiliaid ac ymateb iddynt

## COLOFN UN:

## Meithrin diwylliant o ymgysylltu effeithiol, gan wella gallu a chapasiti IGDC

**Yr hyn sydd angen ei wneud**

- Cefnogi dull cydgysylltiedig o ymgysylltu â rhanddeiliaid ar draws rhaglenni ac adrannau
- Creu profiad ymgysylltu cyson ar gyfer ein rhanddeiliaid
- Galluogi a chefnogi ein staff i ymgysylltu'n effeithiol
- Rhannu arferion a dysgu gorau

**Sut y byddwn yn cyflawni hyn**

- Creu rhwydwaith proffesiynol IGDC ar gyfer staff ymgysylltu a chyfathrebu
- Gwneud gweithgareddau a chynlluniau ymgysylltu gweladwy a'u halinio ar draws IGDC
- Datblygu pecyn cymorth ymgysylltu
- Datblygu platfform mewnol i rannu gweithgareddau a gwybodaeth ymgysylltu ar draws IGDC
- Datblygu meini prawf llwyddiant ac adroddiadau cyfunol i fesur perfformiad a llywio gweithgaredd

## COLOFN DAU:

## Datblygu partneriaethau a rhwydweithiau strategol effeithiol, a fforymau i alluogi cydweithio llwyddiannus

### Yr hyn sydd angen ei wneud

- Cefnogi ymgysylltiad strategol a gwaith strwythuredig gyda phartneriaid cyflawni allweddol
- Creu perchnogaeth glir a rheolaeth gydlynol o berthnasoedd
- Codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu â chyfleoedd i ddylanwadu
- Cefnogi arweinydd iechyd digidol newydd, a datblygiad polisi yn Llywodraeth Cymru gyda Phrif Swyddog Digidol Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Deall ac ymateb i'r dirwedd wleidyddol newidiol ar lefel y DU

### Sut y byddwn yn cyflawni hyn

- Nodi a datblygu cyfres graidd o bartneriaethau strategol, gan gytuno ar gynlluniau a rhaglenni gwaith ar y cyd
- Cyflwyno ymagwedd arweinydd ymgysylltu
- Mapio ac amlygu cyfleoedd i ddylanwadu a rhyngweithio IGDC
- Sefydlu cyfarfodydd rheolaidd gyda Phrif Swyddog Digidol Llywodraeth Cymru, Swyddfa Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a chefnogi datblygiad strategaeth newydd
- Nodi a meithrin perthnasoedd effeithiol gyda sefydliadau gwleidyddol ac ariannu perthnasol eraill

## COLOFN TRI:

## Cael ein cydnabod fel arweinydd system yn natblygiad technoleg, cynhyrchion data a gwasanaethau o ansawdd uchel ar gyfer y GIG

**Yr hyn sydd angen ei wneud**

- Codi ymwybyddiaeth o ddiben a gwaith IGDC yng Nghymru, y DU a thu hwnt
- Dangos ein gwerth fel partner strategol dibynadwy
- Cyfrannu at gyfresi arwain agweddau
- Cefnogi'r achos gwerth ar gyfer digidol

**Sut y byddwn yn cyflawni hyn**

- Mireinio a chyhoeddi ein strategaeth ymgysylltu
- Cefnogi datblygiad cynllun cyfathrebu sy'n amlygu gweithgareddau ymgysylltu a'n dull cyd-gynhyrchu
- Amlygu ac ymgysylltu â chyfleoedd lle gallwn arwain wrth ychwanegu gwerth i'n rhanddeiliaid a diffinio ein cynnig gwerth trwy negeseuon allweddol.
- Cyflwyno cyfres arwain agweddau gyda phartneriaid
- Galluogi a hyrwyddo 'cymunedau ymarfer'
- Nodi ac ymgysylltu ag arferion gorau byd-eang a chymharu a mesur cynnydd, enw da a llwyddiant
- Gweithio gyda phartneriaid i gefnogi cynhwysiant digidol a sicrhau Achrediad Siarter Cynhwysiant Digidol.

## COLOFN PEDWAR:

## Gweithredu fel sefydliad ystwyth ac ymatebol, gan wrando ar randdeiliaid ac ymateb iddynt

**Yr hyn sydd angen ei wneud**

- Cyflwyno dulliau rhoi adborth rheolaidd ar gyfer darparu a phartneriaid eraill
- Cydgrynhoi data a gwybodaeth ar ymgysylltu i lywio camau gweithredu a gwneud penderfyniadau
- Cynyddu ein dealltwriaeth o'n rhanddeiliaid a'u barn am IGDC
- Sicrhau adborth cydgysylltiedig ac amserol i randdeiliaid

**Sut y byddwn yn cyflawni hyn**

- Cynnal gweithgareddau ôl-weithredol gyda phartneriaid a dull adborth blynyddol gyda rhanddeiliaid i gynyddu dealltwriaeth ac i lywio ffocws yn y dyfodol
- Cefnogi'r gwaith o gynnal asesiad aeddfedrwydd digidol o amgylch defnyddioldeb systemau
- Asesu potensial ar gyfer Fforwm Agored Rhanddeiliaid Cenedlaethol IGDC.
- Gwreiddio llais y cyhoedd ar draws IGDCl a hyrwyddo Grŵp Sicrwydd Cleifion a'r Cyhoedd fel dull ar gyfer ymgysylltu ar draws IGDC

# CANLYNIADAU

**Mae'r Strategaeth hon wedi'i hanelu at leoli IGDC fel y partner strategol yr ymddiriedir ynddo, gyda'r nod cyffredinol o gyflawni lefel uwch o gydweithio, creu cyfleoedd i ddylanwadu a chael ein dylanwadu.**

Mae'r strategaeth a'r cynllun gweithredu yn cadarnhau ein hymrwymiad i fod yn bartner strategol dibynadwy ac mae'n amlinellu sut y byddwn yn ymgysylltu ac yn gweithio ar y cyd ag ecosystemau cymhleth iechyd a gofal yng Nghymru.




Y canlyniadau dymunol ar gyfer y gwaith hwn yw:

- Y byddwn yn cael ein hystyried gan ein partneriaid allweddol fel partner strategol dibynadwy gyda lefelau uchel o hyder yn yr hyn rydym yn ei wneud a sut rydym yn gweithio gyda nhw.
- Y byddwn yn meddu ar ddull cydgysylltiedig o ymgysylltu â rhanddeiliaid ar draws IGDC, gan ddarparu profiad ymgysylltu cyson a phroffesiynol i'n rhanddeiliaid.
- Y bydd gan rhanddeiliaid ymwybyddiaeth gynyddol o waith IGDC ac maent yn teimlo y gallant gyfrannu'n briodol.
- Y byddwn yn sefydlu dulliau adborth rheolaidd ac amgylchedd gwaith sy'n galluogi rhannu arferion a dysgu gorau.
- Y byddwn yn cyflawni Achrediad Cynhwysiant Digidol a sicrhau bod gwasanaethau IGDC mor hygyrch a chynhwysol â phosibl.

# MESUR A GWERTHUSO

**Er mwyn mesur llwyddiant ein gweithgareddau ymgysylltu, mae ein strategaeth wedi'i hategu gan gynllun gweithredu sy'n cynnwys canlyniadau ac amserlenni.**

Byddwn yn gwerthuso ac yn mesur y gwaith hwn mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys:

- Adborth gan randdeiliaid
- Adborth gan ein staff am ein gwaith ymgysylltu
- Creu a chyflawni cynlluniau ar y cyd â phartneriaid yn llwyddiannus
- Cyfraniad ac arweinyddiaeth IGDC mewn digwyddiadau, fforymau a rhwydweithiau allweddol

Gan fod y strategaeth hon yn cynnwys dull newydd o weithredu gan y sefydliad, byddwn yn adolygu ac yn monitro'r cynllun cyflawni a'r mesurau uchod yn ofalus i sicrhau eu bod yn effeithiol, yn briodol ac yn cyflawni ein nodau strategol.

Bydd ein dull gweithredu hefyd yn cael ei adolygu'n rheolaidd a'i addasu i ymateb i unrhyw anghenion sy'n newid a sicrhau bod dysgu a gwella parhaus yn digwydd i gyflawni arfer gorau.

